Canolfannau cynnes – rhestr wirio diogelu

Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod ac addysgu'r rheini o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Mae'r rhestr wirio hon wedi'i llunio i gynorthwyo grwpiau sy'n sefydlu canolfannau/mannau cynnes i roi trefniadau diogelu priodol ar waith ar gyfer eu gweithgareddau.

Eitem	**Sylwadau**	✓
TREFNIADAU DIOGELU		
Polisi diogelu sy'n ymdrin â'r gweithgareddau a'r grwpiau o fuddiolwyr (e.e. oedolion, plant)	Polisi clir i'w ddilyn, yn enwedig os oes amrywiaeth o bartneriaid yn gysylltiedig, e.e. mae'r rheini yng ngofal y lleoliad yn wahanol i'r rheini sy'n cefnogi'r gweithgaredd canolfan cynnes	
POBL Â CHYFRIFOLDEBAU PENODOL (Gall dyletswyddau gael eu dyrannu i fwy nag un unigolyn)		
	Gweithdrefn cofnodi/adrodd digwyddiadau ar draws pob rôl?	

Unigolyn diogelu dynodedig (DSP) Swyddog Iechyd a Diogelwch Swyddog Cymorth Cyntaf	Unigolyn penodol, yn ddelfrydol ar y safle neu gyda'i fanylion cyswllt wedi'u harddangos yn glir, i bob arweinydd/mynychwr leisio unrhyw bryderon Unigolyn â rhifau ffôn brys a mynediad at ffôn llinell dir/symudol y dderbynfa. Unigolyn cymorth cyntaf cymwys â mynediad i gyfarpar cymorth cyntaf.	
Hyfforddiant diogelu	Grŵp A (modiwl ar-lein neu gyfwerth) i bawb Hyfforddiant Grŵp B i rolau penodol e.e. cefnogwyr sesiynau rhiant a baban Hyfforddiant Grŵp C i DSP a dirprwy(on) Mynediad at, a defnydd o Weithdrefnau Diogelu Cymru - www.diogelu.cymru	
Gwybodaeth am ddiogelu	Wedi'i rhoi/darparu ar y safle fel bod defnyddwyr yn gallu adnabod materion diogelu a'u codi gyda'r DSP, e.e. arddangos posteri'n glir mewn ardaloedd cyhoeddus Wedi darparu gwybodaeth a manylion cyswllt yr awdurdod lleol a'r Heddlu	

	Gwybodaeth am asiantaethau eraill i gyfeirio pobl atynt, e.e. NSPCC, Age Cymru, Cyngor ar Bopeth ac ati	
Gweithdrefn adrodd diogelu	Wedi'i ddeall ac yn cael ei roi ar waith gan y DSP a phobl eraill a allai ymgymryd â'r rôl hon yn ei absenoldeb, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â'r awdurdod lleol pan fydd achos rhesymol dros amau camdriniaeth, esgeulustod neu niwed	
Rheolau sylfaenol	Cod ymddygiad a disgwyliadau sylfaenol o staff/gwirfoddolwyr a defnyddwyr. Rhaid adrodd achosion o dor-rheolau i'r DSP neu unigolyn arall a nodir. Sefydlu o dan ba amgylchiadau y bydd angen gofyn i rywun adael/cadw draw	
Rhannu gwybodaeth	Proses sefydledig ar gyfer rhannu gwybodaeth ar draws staff/timau sy'n cefnogi'r ganolfan ar wahanol ddiwrnodau/sesiynau, e.e. cyfarfodydd tîm wythnosol gyda diogelu fel eitem ar yr agenda	
YSTYRIAETHAU YMARFEROL AR GYFER CADW POBL YN DDIOGEL		
A oes digon o ystafelloedd golchi/toiledau priodol ar gyfer cynnydd mewn niferoedd sy'n aros am gyfnodau hir o amser?		

A oes gennych chi ddigon o staff/gwirfoddolwyr i gefnogi'r nifer posibl o ddefnyddwyr, gweithgareddau, mannau sydd angen eu goruchwylio ac ati?	
A oes gennych chi staff/gwirfoddolwyr â hyfforddiant, profiad, sgiliau i gefnogi'r amrywiaeth o weithgareddau a ddarperir?	
A oes gwahanol fannau/amserau i ddefnyddwyr a allai fod ag anghenion/ffactorau risg gwahanol? E.e. ystafell/sesiwn rhiant a baban mewn man ar wahân neu ar wahanol adeg i sesiynau eraill	
A oes mannau preifat i gael sgyrsiau â phersonél cynghori a chynorthwyo? E.e. mynediad at fudd-daliadau	
A oes band eang wi-fi i alluogi mwy o fynediad i ddefnyddwyr?	

ADNODDAU

Cod Ymarfer Diogelu Llywodraeth Cymru

Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Cefnogi Trydydd Sector Cymru